

CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 5ed Gorffennaf 2017 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd B. Mellor (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr J. Ball, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, S. Harris, Ms J. Hughes, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts a T. Thomas.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

28. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIAD

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr B. Blakeley (yn sâl), A. J. Rutherford (ymrwymiad gwaith) a Miss C. L. Williams (yn sâl).

29. DEFNYDDIO SGWTERI SYMUDEDD

Ymhellach i gofnod rhif 13 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14eg Mehefin 2017, cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddisbarthwyd gyda'r rhaglen) yn amlinellu'r gwahanol fathau o sgwteri ac argymhellio Côt y Briffordd ar gyfer pob un.

Dywedodd Clerc y Dref mai cyfrifoldeb yr heddlu oedd gorfodi'r argymhellion.

PENDERFYNWYD bod y cynghorwyr yn mynegi eu pryderon ynglŷn â defnydd amhriodol a diogelwch cerddwyr gyda'r heddlu pan fyddant yn mynychu cyfarfod y Cyngor ar 19eg Gorffennaf 2017.

30. 'CARU'R RHYL' – ADRODDIAD CYNNYDD

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn adroddiadau o'r wasg gan yr ymgynghorwyr ar Newid Syniadau Weber Shandwick er gwybodaeth i'r aelodau, a ddangoswyd ar sgrîn Siambr y Cyngor.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau.

31. HYFFORDDI AELODAU

Dywedodd Clerc y Dref y byddai swyddogion y Cyngor yn llunio sesiwn gyflwyno i gynghorwyr newydd dros yr haf yn canolbwyntio ar brotocolau, esbonio termau a sut yr oedd pob pwyllgor ac is-bwyllgor yn bwydo i waith y Cyngor yn gyffredinol.

PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth.

32. EITEM GAN AELOD: CYFFORDD FFORDD TYNEWYDD/FFORDD ARFORDIR Y RHYL

Gofynnodd y Cynghorydd S Harris am gefogaeth yr aelodau wrth godi diffyg golau hidlo ar y goleuadau traffig ar y gyffordd brysur uchod gyda Chyngor Sir Ddinbych, a oedd wedi arwain at ddwy ddamwain yr oedd ef yn ymwybodol ohonynt.

Dywedodd aelod iddo siarad gyda Mr Peter Lea o Gyngor Sir Ddinbych ynglŷn â chael golau hidlo yno, ond ei fod wedi dweud nad oedd golau hidlo yn bosibl yno oherwydd agweddau technegol y goleuadau penodol hynny, ond ei fod yn hapus i ystyried y mater eto.

Adroddodd Clerc y Dref y byddai'r Cyngor Sir ond yn ymwybodol o ddamweiniau pe byddai'r gwasanaethau argyfwng wedi mynychu.

PENDERFYNWYD *bod Clerc y Dref yn gofyn am ymweliad safle gyda chynghorwyr y ward a swyddog priodol y Cyngor Sir i edrych ar ateb posibl.*

33. EITEM GAN AELOD: PARCIO ANGHYFREITHLON

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James am gefnogaeth yr aelodau i wneud sylwadau ar y problemau parhaus a achosir gan gerbydau preifat yn cael eu parcio yn rhannol ac yn llwyr ar balmentydd gan achosi rhwystr i gerddwyr, yn enwedig rhai gydag anabledd a phobl gyda phlant mewn cadeiriau gwthio.

Hysbysodd aelodau bod yr un broblem yn digwydd yn eu wardiau nhw ac nid oedd yn ymddangos bod yr heddlu yn delio â'r broblem.

PENDERFYNWYD *adrodd am y broblem i swyddogion yr heddlu a oedd yn mynychu cyfarfod nesaf y Cyngor.*

34. EITEM GAN AELOD: PROFI LARYMAU MWG MEWN LLETY AR RENT

Gofynnodd y Cynghorydd J. Ball am gefnogaeth yr aelodau i wahodd Swyddog Diogelwch Tân Lleol i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol i adrodd ar brofi larymau mwg mewn eiddo ar rent yn y Rhyl ar ôl trasiedi Tŵr Grenfell yn Llundain.

Dywedodd aelod bod profi larymau mwg yn rheolaidd yn rhywbeth oedd angen ei wneud dan y ddeddfwriaeth newydd ar gyfer landlordiaid cofrestredig a bod dirwy sylweddol i'r sawl nad oeddynt wedi cofrestru gyda Chyngor Sir Ddinbych.

Awgrymodd yr aelod bod cynghorwyr yn hysbysu'r Cyngor Sir o landlordiaid yn eu wardiau yr oeddynt yn amau nad oeddynt wedi cofrestru.

Awgrymodd y Cynghorydd Ball y gallai Cyngor ar Bopeth hefyd gynorthwyo gyda darparu enwau landlordiaid nad oeddynt wedi cofrestru.

PENDERFYNWYD *bod Clerc y Dref:*

(i) *Y gofyn i Gyngor Sir Ddinbych am ddadansoddiad yn ôl ward o landlordiaid cofrestredig yn y Rhyl.*

(ii) *Cysylltu â Chyngor ar Bopeth yn y Rhyl i ofyn am eu cymorth.*

35. EITEM GAN AELOD: TRAFFIG Y TU ALLAN I YSGOL CHRISTCHURCH

Gofynnodd y Cynghorydd J. Ball am gefnogaeth yr aelodau i ofyn am ystyried camera cyflymder y tu allan i Ysgol Christchurch ar Ernest Street ar ôl iddo gyfarfod â'r pennaeth a thrafod y problemau parcio ar adegau gollwng a chodi plant, sy'n lleihau gwelededd i yrwyr.

Teimla'r aelodau bod cyflymder y gyrrwyr hyn yn annhebygol o fod yn broblem gan fod yr ardal eisoes yn barth 20mya gyda nifer o dwmpathau cyflymder a oedd yn gwneud teithio dros 20mya bron yn amhosibl.

Parcio heb ystyriaeth oedd y broblem fwyaf, y gellid ond ei gorfodi gan yr heddlu ac, yn ddealladwy, nid oedd yn flaenoriaeth iddyn nhw.

PENDERFYNWYD *codi'r mater gyda'r heddlu yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.*

36. EITEM GAN AELOD: CERDYN CORFFORAETHOL Y CYNGOR TREF

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James am gefnogaeth yr aelodau i brynu cardiau swyddogol y Cyngor Tref a oedd yn addas ar gyfer pob achlysur, efallai gydag un neu ddau ddyluniad gwahanol.

PENDERFYNWYD *cymradwyo prynu cardiau swyddogol y Cyngor Tref (wed eu hargraffu yn y Rhyl).*

37. EITEM ER GWYBODAETH I'R AELODAU: LEFELAU TROSEDD YN Y RHYL

Adroddodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE iddi dderbyn nifer o alwadau ffôn gan drigolion pryderus ar ôl cyfres o ddigwyddiadau difrifol yn y dref, gan eu bod yn teimlo'n bryderus a braidd yn anniogel.

Cofiodd aelod iddo fynychu cyfarfod cyswllt yr heddlu yng nghlwb rygbi'r Rhyl ym mis Tachwedd y llynedd, pan roedd wedi gwahodd Comisiynydd Troseddau Gogledd Cymru, a oedd hefyd y bresennol, i fynychu cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol, ond yn ofer.

Dywedodd aelod arall nad oedd byth yn medru cyrraedd rhywun ar y rhif ffôn 101 i adrodd am bryderon bach ac roedd yn amharod i ffonio 999. Aeth yr aelod ymlaen i ddweud bod Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi ei ffonio yn ddiweddar dan yr argraff bod goryrru a'r cerbyd Cyrraedd yn Sâff yn gyfrifoldeb Cyngor Sir Ddinbych?

Adroddodd aelod, er bod gyrrwyr tacsï'r Rhyl wedi derbyn hyfforddiant gan Gyngor Sir Ddinbych ers cael eu henwi yn 'llygaid a chlustiau'r gymuned', roeddynt yn teimlo'n rhwystredig iawn mai ychydig iawn a oedd yn cael ei wneud gan yr heddlu pan roeddynt yn adrodd am bethau iddynt.

PENDERFYNWYD *codi'r materion hyn gyda'r heddlu yng nghyfarfod nesaf y Cyngor a bod Clerc y Dref yn mynd ar ôl y gwahoddiad i'r Prif Gwnstabl a/neu Gomisiynydd Troseddau Gogledd Cymru i fynychu cyfarfod yn y dyfodol mewn perthynas â nifer y troseddau difrifol.*

38. EITEM ER GWYBODAETH I'R AELODAU: CLWB RYGBI'R RHYL

Cyfeiriodd y Cynghorydd K. R. Jones at y newyddion gwych a dderbyniodd y clwb yn ddiweddar, bod ei gais am £490,000 tuag at adleoli o'r Waen yn ôl i'r Rhyl wedi bod yn llwyddiannus, a oedd yn golygu y gallai'r prosiect £1.5m nawr fynd rhagddo.

Ar ran y clwb, gofynnwyd i'r Cynghorydd Jones ddiolch i'r Cyngor Tref am ei gefnogaeth dros y blynyddoedd.

PENDERFYNWYD *derbyn yr wybodaeth.*

39. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

40. EITEM GYFRINACHOL I'R AELODAU: CYDNABYDDIAETH BARHAUS CYN-DRIGOLYN NODEDIG O'R RHYL

Gofynnodd y Cynghorydd A. S. Johnson am gefnogaeth yr aelodau i ryw fath o goffâd parhaus i unigolyn uchel ei barch a oedd wedi marw yn ddiweddar.

Teimlai'r aelodau bod yr unigolyn eisoes wedi derbyn yr anrhydedd uchaf y gallai'r Cyngor Tref ei roi ac roeddynt yn bryderus ynglŷn â'r cynsail y gallai hyn ei osod, na fyddai'n ymarferol

PENDERFYNWYD *derbyn y cais a pheidio â chymryd unrhyw gamau.*

41. EITEM GYFRINACOL I'R AELODAU: GWOBR YN DDIWEDDAR I ANN JONES AC

Gofynnodd y Cynghorydd A. S. Johnson am gefnogaeth yr aelodau i'r Cyngor Tref gydnabod y wobwr arwyddocaol a dderbyniwyd gan Aelod Cynulliad Dyffryn Clwyd ac un o drigolion y Rhyl, Mrs Ann Jones.

Rhoddwyd Medal Adfocatiaeth Shannon i Ann Jones yng Nghynhadledd ac Expo yr NFPA yn Boston yn yr UDA eleni, i gydnabod ei gwaith diogelwch tân a arweiniodd at gyfraith yn cael ei phasio yma yng Nghymru yn 2011 bod pob cartref newydd yn cael system chwistrellu awtomatig.

PENDERFYNWYD *bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at Ann Jones AC i'w llongyfarch ar y wobwr.*

42. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

43. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Cadeirydd:.....

Dyddiad:.....